# Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cangen Cynulliad Cenedlaethol Cymru - 26 Ionawr 2010 (CPA-AGM-2009)

Cafwyd ymddiheuriadau gan Claire Clancy, Ysgrifennydd y Gangen.

## Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf:

## 1. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2009

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

## 2. Materion yn codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

## 3. Adroddiad gan Gadeirydd Cangen Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Janet Ryder

Cymeradwywyd yr adroddiad gan yr Aelodau a oedd yn bresennol.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i dynnu sylw at rai o weithgareddau'r Gangen yn ystod y cyfnod o dan sylw (1 Ionawr 2009 - 30 Tachwedd 2009). Rhoddwyd pwyslais ar y rhan rhyngweithiol iawn a chwaraeodd Cangen Cymru yng ngwaith llywodraethu Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, ac arweiniodd y cyfraniad hwn at ddogfen "Enhancing Governance" y gweithlu a gafodd ei sefydlu yng nghyfarfod y Rhanbarth yn Guernsey.

Soniodd y Cadeirydd am lwyddiant Diwrnod y Gymanwlad y llynedd. Cafodd Laura Hayes o’r Ddraig Ffynci ei dewis gan y Gangen i fynd i’r dathliadau swyddogol yn San Steffan ar 9 Mawrth a chynhaliwyd derbyniad gyda’r nos y diwrnod canlynol yn y Senedd.

Ym mis Mehefin, roedd y Gangen yn falch o groesawu Dr William F. Shija, Ysgrifennydd Cyffredinol y Gymdeithas i’r Senedd ar ei ymweliad cyntaf â Chymru.

Soniodd y Cadeirydd hefyd am y digwyddiad Commonwealth@60 llwyddiannus a gynhaliwyd yn y Senedd ar 2 Rhagfyr (y tu allan i gyfnod yr adroddiad), lle roedd tua 130 o bobl wedi dod at ei gilydd i gynrhychioli dros 20 o wledydd y Gymanwlad. Roedd y Cadeirydd am gofnodi ei diolch i’r holl staff a weithiodd yn galed i sicrhau llwyddiant y noson arbennig hon.

## 4. Busnes brys

Nid oedd unrhyw fusnes brys.

## 5. Etholiadau i Bwyllgor Gwaith y Gangen

Ailetholwyd Mike German, Jeff Cuthbert, Janet Ryder ac Alun Cairns yn bedwar Aelod o Bwyllgor Gwaith y Gangen.

Etholwyd Claire Clancy, y Prif Weithredwr a’r Clerc yn Ysgrifennydd y Gangen.

Ail-etholwyd Janet Ryder yn Gadeirydd Pwyllgor Gwaith y Gangen.

Cyn cau’r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i atgoffa’r Aelodau o’r Gynhadledd BIMR a gaiff ei chynnal yn Ynys Manaw ym mis Mai. Mae thema’r gynhadledd, sef “***Technology and Democracy: Successes and Challenges***”, o ddiddordeb mawr i’r Cynulliad Cenedlaethol a’r gobaith yw y bydd o ddiddordeb hefyd i Aelodau unigol. Cafodd Aelodau sydd â diddordeb mewn mynd i’r gynhadledd hon eu hannog i gyflwyno’u mynegiant o ddiddordeb a’r achos busnes ategol i Ysgrifenyddiaeth y Gangen erbyn 4 Chwefror, sef y dyddiad cau.

## 6. Presenoldeb

Cofrestr o’r rhai oedd yn bresennol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol:

## Presenoldeb CPA AGM 2009:

## Aelodau’r Gangen:

Rosemary Butler AC, Is-lywydd Pwyllgor Gwaith y Gangen

Janet Ryder AC, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith y Gangen

Alun Cairns AC, Pwyllgor Gwaith y Gangen

Jeff Cuthbert AC, Pwyllgor Gwaith y Gangen

Mike German AC, Pwyllgor Gwaith y Gangen

Jocelyn Davies AC

Mohammad Ashgar AC

Mick Bates AC

Nick Bourne AC

Christine Chapman AC

Nerys Evans AC

Chris Franks AC

William Graham AC

Edwina Hart AC

Mark Isherwood AC

Bethan Jenkins AC

Elin Jones AC

Gareth Jones AC

Helen Mary Jones AC

Val Lloyd AC

David Melding AC

Darren Millar AC

Rhodri Morgan AC

Nick Ramsay AC

Jenny Randerson AC

Carl Sargeant AC

Gwenda Thomas AC

Rhodri Glyn Thomas AC

Brynle Williams AC

## Ysgrifenyddiaeth y Gangen:

Natalie Drury-Styles, Rheolwr Cysylltiadau Rhyngwladol ac Allgymorth

Al Davies, Ysgrifenyddiaeth y Gangen, y Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol

Mari Wynne, y Tîm Cysylltiadau Cyhoeddus

## Ysgrifenyddiaeth Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad Ionawr 2010